# Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
# Cyfeirnod y Papur

## SJR(2)-07-06(p.3)

### Dyddiad: 4 Mai 2006
### Lleoliad: Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant: Cynigion y Dirprwy Weinidog

#### Diben

Diben y ddogfen hon yw rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynigion a ddatblygwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio er mwyn symud Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar Dlodi Plant yn ei blaen.

#### Crynodeb/Argymhellion

Yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror 2005 ar lansio'r Strategaeth Tlodi Plant, Dyfodol Teg i'n Plant, gofynnais i'm Dirprwy Weinidog arwain y gwaith o ddatblygu cynigion er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad symud y gwaith o drechu tlodi plant yn ei flaen. Mae'r Papur Pwyllgor yn adlewyrchu'r ystyriaeth a roddwyd i gam cyntaf y cynigion a wnaed gan y Cabinet ar 3 Ebrill 2006.

#### Y Cefndir

Ers 1997, mae 2.1 miliwn o blant yn y DU wedi'u cymryd allan o dlodi absoliwt. Dywed y Sefydliad Astudiaethau Polisi fod 3.6 miliwn o blant yn dod o gartrefi ble roedd canolrif yr incwm yn llai na 60% o'r gyfartaledd yn 2002-03, sef lleihad o 0.8 miliwn ers 1996-97. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar 9 Mawrth 2006, roedd 28 y cant o blant Cymru yn byw mewn cartrefi â thlodi incwm cymharol, ar ôl y costau lletya ac ar gyfartaledd yn y tair blynedd rhwng 2002-03 a 2004-05. Oherwydd iddo ostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, mae'r ffigwr yr un faint â chyfartaledd Prydain Fawr. Mae gan Gymru gyfradd is o dlodi plant cymharol nag yn Llundain, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Glannau Mersi a Swydd Efrog a Humber. Perfformiad gymharol gryf y farchnad lafur yng Nghymru sy'n debygol o fod yn un o'r rhesymau allweddol dros y gwelliant hwn, gan ei fod yn golygu lleihad sylweddol yn nifer y cartrefi sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau oherwydd diweithdra neu anweithgarwch economaidd.

Lansiwyd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y Cynulliad ym mis Chwefror 2005 (link). Mae'r

Strategaeth yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddileu tlodi plant erbyn 2020 ac i haneru tlodi plant erbyn 2010, o'i gymharu â ffigurau 1997. Mae'r dull o weithio sydd i'w gael yn y Strategaeth wedi ei lywio gan ganfyddiadau adroddiad y Grwp Gorchwyl Tlodi Plant annibynnol a'r ymgynghoriad arni. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud yn gwbl glir dro ar ôl tro fod mynd i'r afael â thlodi plant yn un o elfennau sylfaenol ei strategaeth ehangach i wella safon byw a rhoi cyfleoedd i bob cymuned yng Nghymru.

## Ystyriaeth

Mae'r Dirprwy Weinidog wedi datblygu ystod o gynigion cyffredinol a phenodol ar gyfer y polisi. Rhennir y cynigion yn dri cham:

- Cam 1 – ymgorffori'r cynigion hynny sydd i'w datblygu ymhellach dros y 12 mis nesaf;
- Cam 2 a 3 – cynigion fydd yn parhau i fod o dan ystyriaeth, ac y gallant gael eu datblygu ymhellach ar ôl 2007.

Mae Atodiad A yn amlinellu cam cyntaf y cynigion, ac yn awgrymu sut y byddant yn cael eu rhoi ar waith. Dylai'r Pwyllgor nodi y bydd y rhan fwyaf o'r cynigion yn dod o dan fy mhortffolio i sef Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ond bod rhai ohonynt yn rhan o gyfrifoldebau Gweinidogion eraill. Mae hyn yn adlewyrchu natur drawsbynciol yr hyn sy'n achosi tlodi ymhlith plant, a'r hyn sydd angen ei wneud i'w drechu. Rwy'n cynnig y dylai'r gwaith o roi'r cynigion ar waith a'u monitro gael ei wneud gan fy swyddogion innau yn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, ac y byddant yn cwrdd â swyddogion eraill o adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad. Mae Atodiad B yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar hynt y Strategaeth Tlodi Plant ac yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud ar hyn o bryd, yn ogystal a'r hyn fydd yn cael ei wneud dros y 12 mis nesaf er mwyn trechu tlodi plant.

O ran targedau, â chytundeb fy nghydweithwyr yn y Cabinet, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu'r prif feysydd polisi y bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu targedau ar eu cyfer. Bydd yn gosod targedau tymor canolig (2010) a thymor hir (2020), fel y gellir mesur ein cynnydd dros y blynyddoedd wrth i ni geisio dileu tlodi plant. Amlinellir y targedau yn Atodiad C.

Yn olaf, ac yng nghyswllt y pwerau newydd posibl o dan Ddeddf newydd Llywodraeth Cymru, rwy'n bwriadu ystyried datblygu 'mesur' newydd ar ôl 2007, er mwyn trechu tlodi plant. Mae’n hollbwysig bod y Cynulliad yn defnyddio’r holl gymhellion sydd ganddo yn y maes polisi hwn, ac fe ddylai’r defnydd potensial o bwerau newydd fod yn rhan bwysig o’n hymdrech yn y dyfodol. Yn dilyn cytundeb yn y Cabinet, bydd y Dirprwy Weinidog yn gwahodd amrywiaeth o sefydliadau ledled Cymru i gynnig eu sylwadau ar gynnwys y mesur hwnnw neu'r mesurau hynny. Bydd y Dirprwy Weinidog yn hynod o awyddus i wahodd sylwadau sefydliadau am brofiadau grwpiau anodd eu cyrraedd fel plant anabl, gofalwyr ifanc a’r rheini ble nad y Gymraeg na’r Saesneg yw eu prif iaith.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r papur hwn ar hyn o bryd.

## Themâu Trawsbynciol

Mae natur polisi tlodi plant yn golygu ei fod yn drawsbynciol. Bydd cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy hefyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynigion ymhellach, ac wrth eu rhoi ar waith.

Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cam cyntaf y cynigion a ddatblygwyd gan y Dirprwy Weinidog a'r camau gweithredu arfaethedig.

**Edwina Hart AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
**Pwynt Cyswllt: Lynne Schofield/Tracey Breheny, yr Uned Cydgysylltu Cyfiawnder Cymdeithasol, Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, ffôn: 1586**